# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 20 Chwefror 2012** |
| Amser: | **13:00 – 14:10** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
<insert link here>

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Christine Chapman**<br>**Paul Davies**<br>**Mike Hedges**<br>**Ann Jones**<br>**Julie Morgan**<br>**Ieuan Wyn Jones**<br>**Jane Hutt** |
| Tystion: | **Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol, Welsh Government**<br>**Jo Salway, Acting Deputy Director of Strategic Budgeting**<br>**Martin Sollis, Deputy Director of Finance** |
| Staff y Pwyllgor: | **Tom Jackson (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Martin Jennings (Ymchwilydd)**<br>**Eleanor Roy (Ymchwilydd)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

### 2. Cyllideb atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013 – y Gweinidog Cyllid

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid; Jo Salway, Pennaeth Cyllidebu Strategol; Martin Sollis, y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid; a Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol.

2.2 Holodd yr Aelodau y Gweinidog.

**Pwyntiau gweithredu:**

Cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu:

- Manylion am sut mae cyfalaf ychwanegol wedi cael ei fuddsoddi yn y portffolio Gwasanaethau Canolog.
- Nodyn yn amlygu'r broses o gysoni'r prif grŵp gwariant addysg a sgiliau â'r strwythur yn y gyllideb ddrafft, gan adlewyrchu'r newidiadau i'r gyllideb atodol bresennol.
- Eglurhad ynghylch a fydd Cronfa Twf Economaidd Cymru yn dod o'r Gronfa Buddsoddiad Sengl Etifeddol ac ynghylch a oedd tanwariant yn y Gronfa Buddsoddi Sengl Etifeddol.
- Rhagor o fanylion am y Gronfa Buddsoddi i Arbed, gan gynnwys eglurhad ynghylch ar gyfer pa flwyddyn ariannol y byddai'r £10 miliwn ychwanegol o gyllid buddsoddi i arbed (a gyhoeddwyd gan y Gweinidog ym mis Rhagfyr 2011) yn cael ei neilltuo.
- Rhestr o'r holl broffiliau gwobrwyo ac ad-dalu a wnaed o fewn y Gronfa Buddsoddi i Arbed.

## 3. Papurau i'w nodi
3.1 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ynghylch Rhaglenni Gwaith Cenedlaethol y grŵp arweinyddiaeth Gwasanaethau Cyhoeddus.

3.2 Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod ar 25 Ionawr 2012.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn:
Eitemau 5-7

## 5. Protocol drafft â Llywodraeth Cymru ar y gyllideb
5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ran 1 o'i brotocol â Llywodraeth Cymru ar y gyllideb.

## 6. Benthyca darbodus a dulliau arloesol o ddefnyddio arian cyfalaf - cynghorydd arbenigol
6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar benodiad cynghorydd arbenigol ar gyfer ei ymchwiliad i *Fenthyca darbodus a dulliau arloesol o ddefnyddio arian cyfalaf*.

## 7. Trafod y dystiolaeth - cyllideb atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013
7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'i Chyllideb Atodol ar gyfer 2012-2013.